O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2009 Rhif 1977 (Cy. 176)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau Etc.) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2009

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau Etc.) (Cymru) 2004 ("y prif Reoliadau") sy'n gwneud darpariaeth o ran y cyffuriau, meddyginiaethau neu sylweddau eraill y caniateir eu harchebu ar gyfer cleifion wrth ddarparu gwasanaethau meddygol o dan gontract gwasanaethau meddygol cyffredinol o fewn ystyr adran 42 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

Mae rheoliad 2 yn diwygio Atodlen 2 i'r prif Reoliadau (cyffuriau neu feddyginiaethau i'w harchebu o dan rai amgylchiadau yn unig) er mwyn ychwanegu amgylchiadau pellach pryd y caniateir archebu'r cyffur Zanamivir (Relenza) o dan y cyfryw gontract i gynnwys clefyd pandemig (fel ffliw pandemig) sy'n gadael iechyd pobl yn agored i risg difrifol neu risg difrifol posibl (neu os rhagwelir y bydd y cyfryw glefyd ar ddod yn fuan) a bod cyflenwi'r cyffuriau yn unol â phrotocol sy'n ymwneud â'r clefyd hwnnw fel y darperir ar ei gyfer yn erthygl 12F o Orchymyn Meddyginiaethau drwy Bresgripsiwn yn Unig (I'w Defnyddio gan Bobl) 1997 neu erthygl 8 o Orchymyn Meddyginiaethau (Gwerthiant Fferyllfeydd a Gwerthiant Cyffredinol—Esemptiad) 1980.

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2009 Rhif 1977 (Cy. 176)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau Etc.) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2009

Gwnaed	*20 Gorffennaf 2009*
Gosodwyd gerbron Cynulliad	
Cenedlaethol Cymru	*21 Gorffennaf 2009*
Yn dod i rym	*21 Gorffennaf 2009*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 46, 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enw, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau Etc.) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2009 a deuant i rym ar 21 Gorffennaf 2009.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau Etc.) (Cymru) 2004

2.—(1) Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau Etc.) (Cymru) 2004(**2**) wedi'u diwygio fel a ganlyn.

(**1**) 2006 p.42.
(**2**) O.S. 2004/1022 (Cy.119); diwygiwyd y Rheoliadau hyn gan O.S. 2005/366 (Cy.32) a chan O.S. 2009/1838 (Cy.166).

(2) Yn Atodlen 2 (cyffuriau neu feddyginiaethau i'w harchebu o dan amgylchiadau penodol yn unig), yn y cofnod am y cyffur Zanamivir (Relenza)—

(a) rhifer y paragraff cyfredol am y cofnod yng ngholofn 2 yn "(1)"; a

(b) mewnosoder yng ngholofnau 2 a 3 yn y drefn honno—

"(2) Adult and child patients where– the supply of drugs is– (a) made— (i) while a disease is pandemic, or (ii) in anticipation of a disease being imminently pandemic, and is a serious risk, or is potentially a serious risk, to human health; and (b) in accordance with a protocol relating to that disease as provided for in article 12F of the Prescription Only Medicines (Human Use) Order 1997(**1**) or article 8 of the Medicines (Pharmacy and General Sale-Exemption) Order 1980(**2**).".	Treatment and prophylaxis of influenza

Edwina Hart

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

20 Gorffennaf 2009

(**1**) O.S. 1997/2044.
(**2**) O.S. 1980/1924.